

Polisi Derbyn a Dilyniant

1. Cyd-destun

1.1 Coleg addysg bellach mawr yw Coleg Sir Gâr sydd yn rhan o Grŵp Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant. Mae gan y Coleg ystod gynhwysfawr ac eang o addysg academaidd a galwedigaethol a rhaglenni hyfforddi. Mae'r rhain yn amrywio o lefel Cyn Mynediad i raglenni graddedig, gan ddarparu gwasanaeth i'r gymuned ddysgu gyfan.

2. Pwrpas y Polisi

2.1 Mae'r Polisi Derbyn a Dilyniant yn gosod nodau'r Coleg ar gyfer derbyn a dilyniant dysgwyr ac mae'n disgrifio'r egwyddorion a'r prosesau a ddefnyddir i dderbyn dysgwyr i raglenni astudio.

3. Datblygiad y Polisi

3.1 Datblygwyd y polisi ar lefel Rheolwyr y Coleg ac fe'i cymeradwywyd gan Adran Weithredol a Llywodraethwyr y Coleg.

3.2 Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r polisi.

4. Datganiadau'r Polisi Derbyn a Dilyniant

4.1 Cyfle Cyfartal

Mae Coleg Sir Gâr yn ymdrechu i fod yn gwbl hygyrch a chynhwysol gan sicrhau nad yw unrhyw ymgeisydd am swydd neu gwrs yn derbyn triniaeth lai ffafriol ar sail hil, anabledd, rhyw, ffydd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, statws priodasol, cyfrifoldeb am ddibynyddion, statws cymdeithasol-economaidd neu'n cael ei roi dan anfantais gan amodau neu ofynion na ellir eu dangos bod modd eu cyfiawnhau.

Mae'r Coleg yn hyrwyddo darpariaeth hygyrch a hyblyg ac yn darparu cyfleoedd i bawb mewn Addysg Bellach ac Uwch.

Mae Coleg Sir Gâr yn croesawu ceisiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu ystod o gyrsiau sy'n gwasanaethu anghenion dysgwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg, gan hefyd ddarparu ethos a diwylliant Cymreig yn y Coleg.

Mae'r Coleg yn gweithredu yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg gan sicrhau fod darpar ddysgwyr yn cael eu rhoi mewn cyswllt â staff Derbyn sy'n siarad Cymraeg pe baent yn dymuno derbyn y

gwasanaeth hwn trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr holl ddarpar ddysgwyr yn derbyn gohebiaeth ffurfiol yn ddwyieithog. Caiff trefniadau eu gwneud i ddarpar ddysgwyr Cymraeg eu hiaith i gael eu cyfweld trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.2 Ceisiadau gan Fyfirwyr ag Anghenion Ychwanegol

Caiff ceisiadau gan fyfirwyr ag anghenion ychwanegol eu hystyried ar yr un sail â phawb arall; fodd bynnag, gofynnir i ymgeiswyr drafod eu gofynion tebygol gyda'r Coleg o flaen llaw i ganiatáu amser rhesymol i sicrhau bod cymorth digonol yn ei le.

Bydd y Coleg yn darparu cyngor am addasrwydd y rhaglen a'r cyfarpar a/neu'r cymorth sydd ar gael. Mewn nifer fach o achosion, gallwn ofyn i ymgeiswyr sydd wedi profi problem iechyd ddiweddar, cylchol neu ddifrifol i ganiatáu i ni i ofyn am adroddiadau meddygol neu adroddiadau eraill gan yr asiantaethau perthnasol ynglŷn â'u cyflwr. Nid yw'r adroddiadau hyn yn ffurfio rhan o'r broses ddewis ac ni fyddant ar gael i unrhyw un heblaw am Swyddog Iechyd Meddygol y Coleg.

Tîm Rheoli'r Coleg sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau fod y Coleg yn medru gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer myfirwyr ag anghenion ychwanegol ac er mwyn cadw cofnod o'r achosion eithriadol ble gwrthodir mynediad i ymgeisydd ar y sail nad yw'r cymorth ychwanegol perthnasol ar gael.

4.3 Geirdaon a Gwiriadau Eraill ar Gyfer Pob Myfyriwr Posibl

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i gefnogi lles y dysgwr a bydd yn cyfeirio at y Polisi Ffitrwydd i Astudio pe bai yna unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch a lles dysgwr posibl a / neu unrhyw effaith bosibl ar ddiogelwch a lles dysgwyr posibl eraill.

Bydd hi'n ofynnol i'r Coleg gael gwiriad ffurfiol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer ymgeiswyr i rai rhaglenni. Bydd hyn yn cael ei wneud yn hysbys i'r ymgeiswyr mewn da bryd. Bydd canlyniad y broses hon yn cael ei ystyried wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â derbyn unigolyn i un o'r rhaglenni hyn.

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl:

- I ofyn am eirida ar gyfer unrhyw fyfyriwr posibl.

- I weithredu gwiriad heddlu ar unrhyw ymgeisydd. Bydd canlyniad proses o'r fath yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniad am dderbyn unigolyn i'r Coleg.
- I wrthod mynediad i ymgeiswyr sydd â cholffarnau nad ydynt wedi darfod neu na allent byth ddarfod. Gellir gweithredu'r weithdrefn hon hefyd pan fo gwybodaeth ar gael am weithgareddau sydd y tu allan i'r gyfraith neu fynegi credoau, sydd *prima facie* yn cyflwyno perygl neu dorcyfraith amlwg ac uniongyrchol.
- I wrthod mynediad i ymgeisydd sydd wedi ei wahardd gan y sefydliad addysgol hwn neu un arall yn y gorffennol.
- I wrthod mynediad i ymgeisydd sydd â dyledion heb eu talu i'r Coleg.
- I wrthod mynediad i unigolyn sydd wedi mynychu'r sefydliad addysgol hwn neu un arall yn y gorffennol, ac sydd heb gwblhau cyrsiau, gan gynnwys yr holl asesiadau allanol.
- I wrthod mynediad i ymgeisydd ble mae tystiolaeth y gallai fod yn fygythiad neu'n berygl i eraill.

Bydd ceisiadau sy'n cwmpo i mewn i'r categorïau a nodir o dan adran 4.3 yn cael eu hystyried gan Banel Derbyn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Uwch Reolwyr gan gynnwys cynrychiolaeth gan Gyfadranau a Chyfarwyddiaethau.

4.4 Myfyrwyr Rhyngwladol

Mae gan y Coleg nifer cyfyngedig o lefydd ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol ac mae'n derbyn ceisiadau yn flynyddol. Fel rheol rhaid i fyfyrwyr fod â sgôr IELTS o 4.5 neu uwch er mwyn cael eu hystyried ar gyfer mynediad ar L3 a sgôr IELTS leiafswm o 5.5 ar gyfer mynediad ar L4 neu uwch.

Gellir ond ystyried myfyrwyr rhyngwladol ar gyfer mynediad i raglenni llawn amser eu natur ac sydd ar lefel 3 neu uwch. Rhaid i bob myfyriwr rhyngwladol wneud cais i'r Coleg yn gyntaf gan ddefnyddio ffurflen gais y Coleg.

Bydd myfyrwyr llwyddiannus yn cael eu derbyn yn ffurfiol gan y Coleg ond ar ôl hynny rhaid i fyfyrwyr Rhyngwladol fodloni gofynion Teitheb a Mewnfudo'r DU er mwyn cael y deitheb briodol er mwyn astudio yn y Coleg.

Gellir defnyddio cymwysterau tramor ar gyfer mynediad, ar yr amod eu bod yn cael eu hystyried i fod yn gyfwerth â gofynion y rhaglen benodol y maent yn ymgeisio amdani.

Bydd myfyrwyr rhyngwladol yn derbyn gwybodaeth am ofynion ffioedd a dulliau talu mewn ffurf ysgrifenedig, mewn da bryd cyn dechrau eu rhaglen.

4.5 Derbyn Myfyrwyr o dan 16 oed

Nid fydd myfyrwyr o dan 16 mlwydd oed fel rheol yn cael mynediad i gyrsiau yn y Coleg neu'r rhai sy'n cael eu cyflwyno ar ran y Coleg o dan drefniant gyda thrydydd parti.

Yr unig eithriadau yw ble bydd myfyrwyr yn mynychu cwrs Partneriaeth Rhwydwaith 14-19 sydd yn cael ei gynnal gan y Coleg, ysgolion lleol a'r Awdurdod Addysg Lleol neu gwrs masnachol penodol sy'n caniatáu derbyn myfyrwyr o dan 16 mlwydd oed.

4.6 Y Broses Ymgeisio

Dylid cwblhau ceisiadau ar gyfer addysg bellach ar-lein neu gan ddefnyddio'r ffurflen gais ar bapur cyn gynted â phosibl o fewn y flwyddyn academiaidd bresennol er mwyn cael mynediad yn y flwyddyn academiaidd ddilynol.

Dylai darpar fyfyrwyr fod yn ymwybodol bod yna alw uchel iawn am rai rhaglenni a bod nifer y lleoedd yn gyfyngedig. Bydd y rhain yn cael eu llenwi ar sail y cyntaf i'r felin. Efallai y bydd y Coleg yn sefydlu rhestrau aros ar gyfer rhaglenni penodol ac yn cynnig lleoedd fel a phan fyddant ar gael.

4.7 Gofynion Mynediad

Fel rheol bydd lefel y rhaglen unigol yn pennu'r gofynion mynediad. Fodd bynnag, dylid nodi bod yna ofynion lleiafswm a chyffredinol yn ogystal â bod gofynion mynediad penodol hefyd yn medru bod yn weithredol, er enghraifft, ystyried portffolio mewn Celf a Dylunio neu glyweliad ar gyfer y Celfyddydau Perfformio. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu am unrhyw anghenion penodol ar gyfer rhaglen ar gam cynnar yn y broses ymgeisio. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar Wefan y Coleg ac ym Mhrosiectws y Coleg.

Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni'r gofynion mynediad arferol ar gyfer cwrs arbennig yn derbyn lle gydag amodau penodol. Bydd yr amodau hyn yn cael eu


gwneud yn eglur i'r ymgeisydd. Bydd penderfyniad i dderbyn ymgeisydd o dan yr amgylchiadau hyn fel y gwelo Tîm Rheoli'r Gyfadran berthnasol, y Prifathro neu ei enwebai yn ddoeth.

4.8 Addysg Bellach

Rhagarweiniad

Mae dysgwyr mewn addysg ôl-16 ar draws Cymru yn astudio rhaglen ddysgu yn hytrach na phrif gymhwyster yn unig. Ceir pum prif elfen i raglen ddysgu: -

- Craidd
- Nod Prif Gymhwyster (Prif Gwrs)
- Cymwysterau â Ffocws ar y Gymuned, y Dysgwr, Diwydiant
- Dysgu nad yw'n achrededig
- Profiad gwaith neu Addysg Gysylltiedig â Gwaith



Bydd rhaglenni dysgu yn cael eu haddasu i fod yn unigol ar gyfer pob dysgwr. Yn ogystal â'u prif gwrs, mae angen i ddysgwyr ddisgwyl eu bod yn cyflawni cymwysterau eraill sy'n berthnasol i'w

datblygiad a'i dilyniant personol. Mae'r rhain yn medru cynnwys TGAU Mathemateg, TGAU Saesneg a/neu TGAU Cymraeg.

4.8.1 Lefelau Cymwysterau

Yn gyffredinol, mae yna nifer o wahanol gymwysterau academaidd a galwedigaethol ar gael o Lefel Mynediad i Lefel 3. Mae'r rhain yn amrywio o'r cymwysterau TGAU, Safon Uwch a BTEC traddodiadol i gymwysterau dyfarnu sy'n ymwneud â phynciau arbenigol, yn ogystal â NVQs yn y gwaith sy'n seiliedig ar gymhwysedd.

Lefel Mynediad

Dyma gyrsiau sylfaenol sy'n helpu i adeiladu hyder, gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ac a fydd yn helpu i wella eich sgiliau Saesneg a Mathemateg.

Lefel 1

Dyma gyrsiau cyflwyniadol sydd yn datblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o bwnc, diwydiant neu faes gwaith. Mewn rhai meysydd megis adeiladu bydd rhaid i chi ddechrau ar lefel 1 beth bynnag yw eich canlyniadau TGAU neu Safon Uwch.

Lefel 2

Mae cyrsiau ar y lefel hon yn adeiladu ar eich gwybodaeth a'ch sgiliau. Maent yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau da i chi mewn pwnc neu ddiwydiant.

Lefel 3

Mae'r cyrsiau uwch hyn yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau manwl i chi mewn pwnc neu gwrs galwedigaethol sy'n ymwneud â diwydiant. Mae cyrsiau Lefel 3 wedi eu cynllunio i'ch galluogi i symud ymlaen i brifysgol neu i gyflogaeth.

Mae'r Rhaglen Sylfaen mewn Celf a Dylunio a leolir ar Gampws Ffynnon Job ar lefel 3/4. Mae'r lefel hon yn lefel debyg i raglen Gradd blwyddyn gyntaf mewn Prifysgol.

Dilyniant

Caiff dysgwyr fel rheol eu hannog i fynychu un cwrs ar bob lefel cyn symud i fyny lefel neu symud ymlaen i fyd gwaith. Mewn rhai achosion bydd y Coleg yn cefnogi dysgwyr trwy eu galluogi i astudio cwrs arall ar yr un lefel. Fodd bynnag, byddai rhaid bod yna amgylchiadau eithriadol er mwyn i ddysgwr astudio trydydd cwrs ar yr un lefel a byddai rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan Banel

Derbyn a fydd â chynrychiolwyr o blith yr Uwch Reolwyr yn cynnwys cynrychiolaeth o Gyfarwyddwyr y Gyfadran.

Bagloriaeth Cymru

Mae dysgwyr yn astudio Bagloriaeth Cymru ar lefel Sylfaen (lefel 1), lefel Genedlaethol (lefel 2) a lefel Uwch (lefel 3) gan ddatblygu sgiliau mewn llythrennedd a rhifedd, llythrennedd digidol, meddwl beirniadol a datrys problemau, creadigrwydd ac arloesi, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu.

Gan adeiladu ar y sgiliau hyn mae'r dysgwyr yn cwblhau her yn y meysydd canlynol: menter a chyflogadwyedd, dinasyddiaeth fyd-eang a chymuned, gan arddangos y sgiliau i weithio'n annibynnol ac mewn tîm. Maent hefyd yn cael cyfle i ymgymryd â phrosiect unigol sydd yn ymwneud â'r sgiliau galwedigaethol a ddatblygwyd yn y brif raglen astudio.

Ar Lefel Uwch (lefel 3), mae'r Bagloriaeth yn cael ei graddio a chaiff ei gwerthfawrogi a'i derbyn gan nifer cynyddol o brifysgolion.

4.8.2 Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC)

Mae'r Coleg wedi ymrwmo i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau bywyd ymhellach (yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd) er mwyn cynorthwyo dilyniant i lefelau uwch o ddysgu, cyflogaeth neu hunangyflogaeth.

Ceir cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ac maent ar gael o Lefel Mynediad hyd at Lefel 3.

Bydd pob myfyriwr llawn amser a myfyrwr rhan-amser sylweddol (hynny yw, sy'n astudio mwy na 5 awr yr wythnos) yn ymgymryd â phrawf diagnostig sgiliau sylfaenol pan fyddant yn dechrau eu cyfnod yn y Coleg. Gallai hyn arwain at brofion diagnostig pellach os oes angen.

4.8.3. Lefel UG / Safon Uwch

Fel arfer bydd disgwyl i fyfyrwr sydd eisiau astudio rhaglen Uwch Gyfrannol / Safon Uwch lawn amser fod wedi ennill lleiafswm o chwech TGAU gradd A* - C sy'n cynnwys o leiaf gradd C mewn Mathemateg a Saesneg Iaith neu Gymraeg Mamiaith. Dylai myfyrwr hefyd fod yn ymwybodol o

ofynion pynciau UG a Safon Uwch unigol. Mae'r rhain ar gael mewn Taflenni Cyrsiau, ym Mhrosbectws y Coleg ac ar Wefan y Coleg.

4.8.4 Cyrsiau Mynediad i Addysg Uwch

Mae Diplomâu Mynediad i Addysg Uwch yn darparu paratoad ar gyfer addysg uwch (AU). Maent yn mynd i'r afael â gofynion penodol yr oedolion hynny sydd efallai wedi gadael ysgol yn gynnar neu wedi bod y tu allan i addysg am nifer o flynyddoedd. Ceir cyrsiau sydd wedi eu cynllunio'n benodol i baratoi myfyrwyr i symud ymlaen i Addysg Uwch (lefel prifysgol). Bydd disgwyl i fyfyrwyr gael cyfweiliad a'u bod eisoes wedi ennill TGAU Mathemateg a Saesneg Gradd C neu uwch neu'u bod wedi cwblhau cwrs Sgiliau at Astudio Pellach. Bydd yr asesiadau hyn yn dangos p'un a oes gan fyfyrwr sgiliau digonol i ddechrau ar raglen mynediad neu os oes angen i'r myfyrwr ddilyn rhaglen baratoadol Cyn Mynediad yn gyntaf.

Bydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd eisoes wedi ennill Cymwysterau Lefel 4 yn cael eu hasesu gan y Panel Derbyn Mynediad.

4.8. Cymwysterau Galwedigaethol

Cymwysterau Galwedigaethol Lefel 3

Fel rheol bydd disgwyl i fyfyrwyr sydd am astudio cymhwyster galwedigaethol ar Lefel 3 fod wedi ennill lleiafswm o bump TGAU gradd A*-C neu fod wedi cwblhau cymhwyster galwedigaethol lefel 2 yn llwyddiannus ac wedi cael cyfweiliad dilyniant llwyddiannus. Bydd dilyniant yn dibynnu ar asesiad y Coleg o unigolyn a'i allu i lwyddo ar y cwrs. Mae'r wybodaeth hon ar gael ym Mhrosbectws y Coleg ac ar Wefan y Coleg.

Er mwyn cael mynediad i Flwyddyn 2 rhaglen ddysgu alwedigaethol ar Lefel 3 rhaid i fyfyrwr arddangos:

- Eu bod wedi cwblhau elfennau penodedig eu rhaglen ddysgu ddewisol yn llwyddiannus, fel y dynodwyd gan y maes cwricwlwm priodol.

Cymwysterau Galwedigaethol Lefel 2

Ceir gwahanol ofynion mynediad ar gyfer gwahanol raglenni dysgu ar Lefel 2. Fel rheol, bydd disgwyl i fyfyrwr sydd am astudio cymhwyster galwedigaethol ar Lefel 2 fod wedi ennill o leiaf dwy

radd D ar lefel TGAU neu fod wedi cwblhau cymhwyster galwedigaethol lefel 1 yn llwyddiannus. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw ennill cymhwyster galwedigaethol ar lefel 1 yn golygu bod myfyriwr yn awtomatig yn gymwys i symud ymlaen i gwrs lefel 2. Bydd dilyniant yn dibynnu hefyd ar asesiad y Coleg o unigolyn a'i allu i lwyddo ar y cwrs.

Cymwysterau Galwedigaethol Lefel 1

Fel rheol, bydd myfyrwyr sydd am astudio cymhwyster galwedigaethol llawn amser ar Lefel 1 eisoes wedi cwblhau cymhwyster lefel Mynediad, Tystysgrif Addysg neu wedi ennill TGAU graddau D i G. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw cwblhau un o'r cyrsiau uchod yn llwyddiannus yn golygu bod y myfyriwr yn awtomatig yn gymwys i symud ymlaen i gwrs lefel 2. Bydd hyn yn cael ei asesu drwy gyfweiliad dilyniant.

Gellir dod o hyd i'r gofynion mynediad penodol ar gyfer pob cwrs ar Wefan y Coleg ac ym Mhrosbectws y Coleg ac mewn Taflenni Cwrs.

Cymwysterau Lefel Mynediad

Nid oes angen cymwysterau ffurfiol. Mae mynediad yn dibynnu ar gyfweiliad llwyddiannus ac ar asesiad y Coleg o unigolyn a'i allu i lwyddo ar y cwrs. Gall rhaglenni astudio annibynnol ar lefel mynediad ddarparu cyfleoedd rhagflas mewn meysydd galwedigaethol yn ogystal â datblygu sgiliau byw'n annibynnol.

4.9 Addysg Uwch

Caiff holl raglenni addysg uwch y Coleg eu dilysu gan Brifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.

Fel rhan o'r Brifysgol, mae disgwyl i'r Coleg gymhwyso egwyddorion y Polisi Derbyn Myfyrwyr Addysg Uwch; gellir dod o hyd i'r manylion am hwn ar wefan y Brifysgol. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth berthnasol sy'n effeithio ar dderbyn myfyrwyr, ac maent yn rhoi ystyriaeth i arfer gorau'r sector, gan gynnwys:

- Côt Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch; Pennod B2; Recriwtio, dewis a derbyn i addysg uwch a Rhan C: Gwybodaeth am ddarpariaeth addysg uwch

- Cefnogi Proffesiynoldeb mewn Derbyn -- SPA Datganiad arfer da ;
- Canllawiau UCAS a llawlyfrau ar gyfer sefydliadau
- Adroddiad Schwartz ar egwyddorion derbyn teg;
- Gofynion cyrff achredu proffesiynol perthnasol;
- Gofynion yr UKVI

Rhaid i bob myfyriwr fodloni'r gofynion mynediad lleiafswm a nodwyd ar gyfer pob rhaglen addysg uwch. Rhoddir manylion am ofynion mynediad llawn amser ar wefan UCAS o dan C22 Coleg Sir Gar/Carmarthenshire College www.ucas.ac.uk

Rhaid i bob cais am gyrsiau israddedig llawn amser gael eu gwneud drwy Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS). Dylid gwneud ceisiadau am gyrsiau israddedig rhan-amser gan ddefnyddio ffurflen gais y Coleg.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg neu yn Saesneg gan ymgeiswyr sydd â'r gallu i gymryd rhan, ynghyd â'r diddordeb a'r cymhelliant i lwyddo mewn addysg uwch. Bydd y dewis i dderbyn myfyriwr yn cael ei benderfynu ar sail teilyngdod unigol, a gaiff ei arddangos drwy'r broses gais sy'n cynnwys:

- Datganiadau personol
- Geirdaon priodol
- Cyfweiliad ac ystyried portffolio ble bo'n briodol
- Potensial academiaidd
- Asesiad o gyflawniad blaenorol, p'un ai drwy gyfeiriad at gymwysterau academiaidd neu alwedigaethol, neu brofiad blaenorol wedi ei ddisgrifio yn fwy eang
- Y gallu i elwa o gymryd rhan.

Caiff ymgeiswyr ag anawsterau dysgu penodol neu anghenion eraill eu hannog a'u cynghori i geisio cyngor pellach gan y coleg. Caiff ceisiadau eu hystyried ar sail deg, heb wahaniaethu ar sail anableded nac unrhyw ragfarn arall gan gynnwys oedran, rhyw neu hil.

Mae'r Polisi Ffitrwydd i Astudio ar gael i gyfeirio ato wrth ystyried diogelwch a lles pob ymgeisydd i raglenni Addysg Uwch.

Mae'n ofynnol i unrhyw ymgeisydd sydd â cholffarn droseddol berthnasol i ddatgan hyn ar ei ffurflen gais. Caiff 'perthnasol' ei ddiffinio fel troseddau yn erbyn person, p'un a ydynt o natur dreisgar neu

rywiol, troseddau sy'n cynnwys cyffuriau Dosbarth A, a throseddau sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau rheoledig neu sylweddau ble mae'r gollfarn yn ymwneud â delio â neu fasnachu cyffuriau masnachol. Nid yw collfarnau sydd wedi darfod (fel mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn eu diffinio) yn cael eu hystyried i fod yn berthnasol ac ni ddylai'r ymgeisydd eu datgelu. Caiff pob cais o'r fath ei asesu ar sail unigol.